



Cyngor Sir y Fflint

Cyfamod y Lluoedd Arfog Adroddiad Blynyddol 2016/17



Cyfamod y Lluoedd Arfog, Adroddiad Blynyddol 2016/17

Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol cyntaf Cyfamod y Lluoedd Arfog, Cyngor Sir y Fflint, sy'n nodi ein cynnydd ers i ni lofnodi'r Cyfamod am y tro cyntaf yn 2013.

Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi gwneud cryn gynnydd wrth gyflawni ein hymrwymiad i'r Cyfamod, gan adolygu ein cynllun gweithredu ac ehangu aelodaeth o'r Grŵp Llywio. Rwyf yn hynod o falch i ddweud bod hyn wedi arwain at ddyfarnu Gwobr Efydd i'r Cyngor o dan y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr.

Rydym yn cydnabod y swyddogaeth bwysig mae cymuned y Lluoedd Arfog yn ei gwneud i'n cymuned a'n gwlad ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cydnabod eu cyfraniadau a gwneud yn siŵr nad yw'r rheini sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf o dan anfantaes wrth ddefnyddio ein gwasanaethau. Yn ystod y 12 mis nesaf byddwn yn parhau i symud ymlaen â'n cynllun gweithredu, gan gefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'u cyfraniadau. Gyda chymorth Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Gogledd-ddwyrain Cymru y Lluoedd Arfog rwyf yn hyderus y byddwn yn parhau i wneud cynnydd gwych.

**Y Cynghorydd Andrew Dunbobbin
Cefnogwr y Lluoedd Arfog**



Mae [Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog](#) yn ddatganiad gwirfoddol o gyd-gymorth rhwng y gymuned sifil a'r gymuned Lluoedd Arfog leol. Y bwriad yw ategu at Gyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n amlinellu'r rhwymedigaeth foisol rhwng y Genedl, y Llywodraeth a'r Lluoedd Arfog, ar lefel leol.

Pwrpas Cyfamod Sir y Fflint yw annog cefnogaeth ar gyfer Cymuned y Lluoedd Arfog sy'n gweithio ac yn byw yn Sir y Fflint ac i gydnabod a chofio'r aberth a wnaed gan aelodau o'r Gymuned hon, yn enwedig y rheini sydd wedi gwneud yr aberth fwyaf. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd a chyn-weithwyr y lluoedd, eu teuluoedd a'u gweddwon yn Sir y Fflint.

Mae'r Cyfamod yn annog integreiddio bywyd y Lluoedd i fywyd sifil yn ogystal ag annog aelodau o gymuned y lluoedd arfog i helpu yn eu cymuned leol. Llofnodwyd y Cyfamod gan Gyngor Sir y Fflint ym mis Gorffennaf 2013 a chynhaliodd y Sir Ddiwrnod Lluoedd Arfog Gogledd Cymru ym mis Mehefin 2013.

Ar hyn o bryd, nid oes barics y fyddin yn Sir y Fflint, caeodd canolfan y Llu Awyr Brenhinol (RAF) yn Sealand yn 2006, fodd bynnag, yn ôl ymchwil gan y Lleng Brydeinig Frenhinol, yn Sir y Fflint y mae'r nifer mwyaf a'r ganran uchaf o gyn-filwyr yn byw yng Ngogledd Cymru - 10,440 (21%). Cyn-filwyr yw pobl sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi ac mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd wrth gefn.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein cyflawniadau dros y 12 mis diwethaf a'n prif flaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf. Trefnir yr adroddiad yn ôl y penawdau a ganlyn:

- Yr hyn rydym wedi ei gyflawni yn ystod 2016/17
- Fforwm Rhanbarthol y Lluoedd Arfog
- Llywodraethiant
- Camau Nesaf

Grŵp Llywio'r Lluoedd Arfog

Rydym wedi newid yr aelodaeth a chylch gorchwyl Grŵp Llywio'r Lluoedd Arfog a sefydlwyd yn wreiddiol ym mis Mawrth 2015. Mae aelodau'r Grŵp Llywio newydd yn cynnwys:

- Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD)
- Y Lleng Brydeinig Frenhinol (LIBF)
- Cymdeithas Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u teuluoedd (SSAFA)
- Gweithwyr Cyngor Sir y Fflint (CSFf) sy'n gyn-filwyr
- Gwasanaethau CSFf gan gynnwys – Tîm Budd-daliadau, Tîm Busnes a Chyfathrebu, Gwasanaethau Cwsmeriaid, Addysg, Adfywio Economaidd, Tai, Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Hamdden, Gwasanaethau Cymdeithasol.

Y Cynghorydd Andrew Dunbobbin yw'r aelod etholedig a Chefnogwr y Lluoedd Arfog ac mae'n cadeirio'r Grŵp Llywio. Bydd Swyddog Cyswllt Lluoedd Arfog Rhanbarthol Gogledd-ddwyrain Cymru (SCLlARh) a benodwyd yn ddiweddar hefyd yn ymaelodi â'r grŵp hwn.

Mae copi o gylich gorchwyl a chynllun gweithredu'r Grŵp Llywio ynghlwm yn Atodiadau 1 a 2.

Tudalennau gwe y Lluoedd Arfog ar wefan y Cyngor

Rydym wedi neilltuo chwe thudalen ar wefan y Cyngor i hyrwyddo ein hymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog a darparu gwybodaeth ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog.

Rydym yn darparu cysylltiadau i'r cymorth a ddarperir gan asiantaethau eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

Blaenoriaeth y Cyngor

Rydym yn cymryd ein hymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog o ddifri, a dangosir hyn ym mlaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2017/18. O dan y flaenoriaeth Cyngor Modern ac Effeithlon, rydym wedi cytuno y byddwn:

Yn sicrhau nad yw aelodau ein Cymuned y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd o dan anfantais pan fyddant yn defnyddio gwasanaethu'r Cyngor.

Byddwn yn monitro ein cyflawniad drwy fonitro cyflawniadau Cynllun Gweithredu Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Darllenwyd datganiad gan Gefnogwr y Lluoedd Arfog, y Cynghorydd Andrew Dunbobbin, yn ystod cyfarfod llawn y Cyngor Sir ym Mawrth 2017 yn gofyn am gymorth y Cyngor i gefnogi ymgyrch "[Count Them In](#)" y Lleng Brydeinig. Mae'r ymgyrch hon yn gofyn i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) gynnwys cwestiynau

am wasanaethu yn y Lluoedd Arfog a bod yn aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghyfrifiad 2021.

Addysg

Ar hyn o bryd, nid ydym yn casglu gwybodaeth i ganfod nifer y disgyblion/dysgwyr sydd â rhiant (rhieni) /gofalwr (gofalwyr) sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog. Bydd casglu'r data hyn yn flaenoriaeth yn ystod y 12 mis nesaf a bydd yn ein helpu i ddeall mwy am faint ac anghenion cymuned y Lluoedd Arfog yn Sir y Fflint.

Byddwn yn gallu adrodd ar hyn yn fwy manwl yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2017/18.

Cyflogaeth

Roeddem yn falch iawn o dderbyn gwobr Efydd [Cynllun Cydnabod Cyflogwyr](#) y Weinyddiaeth Amddiffyn yn mis Ionawr 2017. Mae'r Cynllun hwn yn annog cyflogwyr i gefnogi amddiffyn ac ysbrydoli eraill i wneud yr un fath. Mae tair lefel – Efydd, Arian ac Aur. Mae'r wobwr yn cydnabod ein bod yn agored i gyflogi milwyr wrth gefn, cyn-aelodau y Lluoedd arfog, hyfforddwyr cadetiaid a phartneriaid personél gweithwyr milwrol a bod ein gwerthoedd yn cyd-fynd â Chyfamod y Lluoedd Arfog.

Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn

Roeddem yn hynod o falch o gefnogi Diwrnod y Lluoedd wrth Gefn gan ein bod yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr mae gweithwyr y Cyngor sy'n aelodau o'r Lluoedd Arfog wrth Gefn, yn ei wneud i'n cymuned, ein sefydliad a'n cenedl. Mae aelodau'r Lluoedd wrth Gefn yn rhoi eu hamser hamdden i wasanaethu yn y Lluoedd wrth Gefn, gan gydbwyso eu bywyd fel sifiliaid â gyrfa filwrol i sicrhau y byddant yn barod i wasanaethu, petai angen. Gwnaethom godi baner y Lluoedd Arfog y tu allan i Neuadd y Sir yn yr Wyddgrug i gydnabod ein cefnogaeth.

Polisi Lluoedd wrth Gefn

Rydym wedi cyflwyno polisi Lluoedd wrth Gefn gan ymrwymo i gefnogi gweithwyr sy'n aelodau o'r Lluoedd wrth Gefn pan fyddant yn cael eu galw i wasanaethu. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cadw statws cyflogaeth barhaus ac mae cymorth ar gael pan fyddant yn dychwelyd i'r gweithle ar ôl cyfnod o wasanaeth gweithredol. Mae aelodau'r Lluoedd wrth Gefn hefyd yn derbyn pythefnos o wyliau blynyddol ychwanegol er mwyn eu galluogi i fynychu gwrsyll blynyddol, gan gydnabod bod y Cyngor yn elwa ar y sgiliau gwerthfawr maent yn eu hennill ac yn eu cyflwyno i'r gweithle.

Cynllun Cyfweliad Gwarantedig

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cyflwyno cynllun cyfweliad gwarantedig ar gyfer cyn-filwyr y Lluoedd Arfog. Mae'r cynllun yn cefnogi'r addewidion yng Nghyfamod y Gymuned.

Gall fod yn anodd iawn i gyn-filwyr ddychwelyd i fywyd sifil, yn enwedig wrth ddod o hyd i gyflogaeth hirdymor. Amcanion penodol y cynllun yw:

- Cynorthwyo cyn-filwyr i oresgyn rhwystrau er mwyn dod o hyd i gyflogaeth sifil.
- Unioni'r fantol ar gyfer rhagolygon cyflogaeth cyn-filwyr drwy roi cyfle iddynt wella'r broses o drosglwyddo ac ailsefydlu ym mywyd sifil.
- Ategu'r cymorth ail-gyflogaeth a roddir i gyn-filwyr sy'n gadael y Lluoedd Arfog gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.
- Cyfrannu at flaenoriaethau economaidd a bywyd pobl hŷn y Cyngor, yn benodol mewn perthynas â datblygu gweithlu â'r sgiliau priodol, a sicrhau sicrwydd ariannol ac annibyniaeth yn ddiweddarach yn eu bywydau.
- Elwa ar sgiliau a rhinweddau trosglwyddiadwy cyn-filwyr.

Pan fydd cyn-filwyr yn ymgeisio am swydd, byddant yn gallu nodi eu statws fel cyn-filwyr ar y ffurflen gais. Cynigir cyfweiliad gwarantedig i gyn-filwyr, cyn belled â'u bod yn ateb y meini prawf a ganlyn:

- Y Lluoedd Arfog oedd cyflogwyr tymor hir diwethaf y cyn-filwr,
- Mae llai na tair blynedd wedi mynd heibio ers i'r cyn-filwr adael y Lluoedd Arfog,
- Mae'r Cyn-filwr yn bodloni meini prawf hanfodol y swydd a hysbysebwyd.

Nid yw'r cynllun yn gwarantu swydd i gyn-filwyr, gan y bydd gweithdrefnau dethol yn parhau i sicrhau mai'r ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd a gaiff ei benodi, yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol ym manylion yr unigolyn.

Tai

Mae cyn-filwyr yn wynebu nifer o heriau pan fyddant yn gadael y Lluoedd arfog, gan gynnwys o bosibl dyledion ariannol, diffyg cyfleoedd gwaith, caethiwed, problemau iechyd meddwl neu dor-perthynas. Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at Llwybr Tai Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog er mwyn sicrhau bod cyn-filwyr yn cael eu trin yn deg, bod eu hanghenion penodol yn cael eu nodi a bod llety addas yn cael ei ddarparu ar eu cyfer.

Mae First Choice Housing, mewn partneriaeth gydag Alabaré, wedi datblygu llety â chymorth a chynlluniau symud ymlaen ar gyfer cyn-filwyr yng Nghymru er mwyn ceisio osgoi digartrefedd. Mae'r llety sydd ar gael i gyn-filwyr yn Sir y Fflint yn cynnwys:

- Cyfleusterau chwe-gwely Cymorth Uchel
- Cyfleusterau wyth-gwely Cymorth Isel

Gwasanaethau Hamdden

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu nofio am ddim ar gyfer cyn-aelodau y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr sy'n byw yng Nghymru, ac mae hyn ar gael yn y pyllau nofio a ganlyn yn y sir: Bwcle, Y Fflint, Treffynnon a'r Wyddgrug yn ystod sesiynau nofio cyhoeddus yn unig. Rhaid i gyn-filwyr a chyn-aelodau'r lluoedd arfog sy'n dymuno manteisio ar y fenter nofio am ddim gael Cerdyn Braint Amddiffyn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Ni fydd pobl heb gerdyn yn gallu manteisio ar y cynllun nofio am ddim nes iddynt brynu cerdyn gan Wasanaeth Disgownt y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r cardiau hyn ar gael gan: www.defencediscountservice.co.uk.

Gofal Cymdeithasol

Rydym yn hyrwyddo offer er mwyn helpu ag anabledd ar ein tudalennau i'r Lluoedd Arfog ar wefan y Cyngor ac yn cyfeirio pobl at sefydliadau eraill sy'n darparu lles, cyngor a chymorth i gymuned y Lluoedd Arfog, gan gynnwys BIPBC.

Fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014), cynhaliwyd asesiad o anghenion poblogaeth er mwyn nodi gofynion o ran iechyd, gofal a chymorth yn y dyfodol. Cwblhawyd yr asesiad o anghenion ar lefel ranbarthol ar gyfer awdurdodau lleol Gogledd Cymru. Dangosodd yr asesiad fod:

- Tua 51,000 o gyn-filwyr yn byw yng Ngogledd Cymru, sef tua 9% o'r boblogaeth dros 16 oed.
- Rhagwelir y bydd nifer y cyn-filwyr yn lleihau yn y dyfodol i tua 22,000 erbyn 2030.
- Mae mwyafrif y cyn-filwyr yn 65 oed a throsodd ac felly yn y dyfodol bydd cyfran fwy o'r cyn-filwyr yn cynnwys pobl iau o gefndiroedd mwy amrywiol.
- Mae gan tua un mewn pump o gyn-filwyr salwch hirdymor sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth milwrol, fel problemau cyhyrysgerbydol, problemau â'r clyw a salwch meddwl.

Mae arnom angen gwybodaeth fanylach er mwyn deall eu hanghenion. Mae ymchwil yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Brifysgol Glyndŵr i ganfod anghenion cyn-filwyr, a bydd hyn o gymorth i lunio'r ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol.

Digwyddiadau Cofio a Hyrwyddo

Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi bod yn hyrwyddo ein hymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog:

- Tachwedd 2016 – gwnaethom gynnal dau funud o dawelwch ar Sul y Cofio, gan wahodd cwsmeriaid i ymuno â gweithwyr i gofio'r rheini a gollodd eu bywydau yn y ddau ryfel byd a rhyfeloedd mwy diweddar.
- Ionawr 2017 – gwnaethom nodi Diwrnod Cofio'r Holocaust drwy gyhoeddi datganiad i'r wasg ac eitem newyddion ar gyfer y gweithlu.
- Chwefror 2017 – gwnaethom gymryd rhan yn Ffair Bontio Lluoedd Arfog Gogledd Cymru yn Wreccsam i hyrwyddo gwasanaethau'r Cyngor a chyfleoedd cyflogaeth.
- Chwefror 2017- gwnaethom hyrwyddo Cyfamod y Lluoedd Arfog i'r Cynghorau Tref a Chymuned yn Sir y Fflint yng nghyfarfod y Fforwm Sirol a gofynnwyd iddynt enwebu cynrychiolydd i ddod i gyfarfodydd y Grŵp Llywio ac i weithio gyda'r Cyngor i hyrwyddo Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Fforwm Rhanbarthol y Lluoedd Arfog

Rydym yn aelod gweithgar o Fforwm Rhanbarthol y Lluoedd Arfog; mae'r sefydliadau a ganlyn hefyd yn aelodau:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
- Gwasanaeth Teuluoedd Barnardo's
- CAIS
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD)
- Y Gwasanaeth Carchardai
- Y Lleng Brydeinig Frenhinol (LIBF)
- Chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru
- Cymdeithas Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd (SSAFA)
- Llywodraeth Cymru (LIC)

Mae Fforwm Rhanbarthol y Lluoedd Arfog yn cyfarfod bob chwarter ac yn rhannu arfer da. Mae'r Fforwm wedi datblygu cynllun gweithredu ar y cyd er mwyn cynnig ffocws ar gyfer ei waith a monitro cynnydd. Hyd yma, mae rhai o gyflawniadau'r Fforwm yn cynnwys:

- dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, llwyddo i sicrhau grant gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i ariannu dau Swyddog Cyswllt Rhanbarthol y Lluoedd Arfog (SCRhLIA) ar gyfer Gogledd-ddwyrain a Gogledd-orllewin Cymru; a
- contractio Prifysgol Glyndŵr i gynnal gwaith ymchwil i anghenion cyn-filwyr yng Ngogledd Cymru.

Llywodraethiant

Gan fod Cyfamod y Lluoedd Arfog yn un o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017/18, cyflwynir adroddiadau cynnydd chwarterol i'r Prif Swyddogion, Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu perthnasol. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn ein cynllun gweithredu.

Bydd y Grŵp Llywio yn adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) (trwy un o themâu blaenoriaeth y BGC) bob chwarter.

Byddwn hefyd yn llunio Adroddiad Blynyddol a gaiff ei gymeradwyo gan y Cabinet a'r Cyngor llawn cyn ei gyhoeddi.

Camau Nesaf

Blaenoriaethau Grŵp Llywio y Lluoedd Arfog ar gyfer 2017/18 yw:

- sicrhau bod gwasanaethau yn cipio gwybodaeth gan eu cwsmeriaid er mwy nodi a ydynt yn aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog a dadansoddi'r wybodaeth hon i nodi anghenion;
- datblygu "canolfannau" ar gyfer y Lluoedd Arfog ar draws y sir lle gall cymuned y Lluoedd Arfog gael cymorth a chynghor arbenigol;
- sicrhau bod ysgolion yn canfod a yw disgyblion yn blant i aelodau gweithredol o'r Lluoedd Arfog neu blant cyn-filwyr;
- rhoi rhaglen hyfforddi gweithwyr ar waith er mwyn codi ymwybyddiaeth am anghenion cymuned y Lluoedd Arfog;
- parhau i ddathlu a chofio digwyddiadau allweddol sy'n cydnabod cyfraniad y Lluoedd Arfog;
- ceisio ennill gwobr arian y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr; ac
- ymchwilio i gyfleoedd i gael grantiau gan y llywodraeth er mwyn parhau â'n hymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog.

Diolch i chi am ddarllen yr adroddiad hwn. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ymrwymiad y Cyngor i'r Cyfamod neu os hoffech wneud unrhyw sylwadau ynglŷn â'r adroddiad hwn, a fyddech crystal â chysylltu â:

Fiona Mocko, Ymgynghorydd Polisi Strategol, Cyngor Sir y Fflint

E-bost: fiona.mocko@flintshire.gov.uk

Rhif ffôn: 01352 702122

Atodiad 1 Cyngor Sir y Fflint – Cylch Gorchwyl Grŵp Llywio Lleol, Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog



Nod Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yw ategu, ar lefel leol, at waith Cyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n amlinellu'r rhwymedigaeth foesol rhwng y genedl, y llywodraeth a'r lluoedd arfog. Nod y Cyfamod Cymunedol yw annog cymunedau lleol i gefnogi cymuned y lluoedd arfog yn eu hardal a hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd am faterion sy'n effeithio ar gymuned y lluoedd arfog.

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn addewid gan y genedl i sicrhau bod y rhai sy'n gwasanaethu, y rhai sydd wedi gwasanaethu, a'u teuluoedd yn cael eu trin yn deg.

I Gyngor Sir y Fflint a sefydliadau sy'n bartneriaid, mae'r cyfamod cymunedol yn gyfle i gydlynu cymorth a chyngor i aelodau o gymuned y lluoedd arfog.

I aelodau o gymuned y lluoedd arfog, mae'r cyfamod cymunedol yn annog cynnwys bywyd milwrol ym mywyd sifil ac yn annog aelodau o gymuned y lluoedd arfog i helpu eu cymuned leol.

Roedd Cyfamod Cymunedol Sir y Fflint a lofnodwyd ym mis Gorffennaf 2013 gan y Lleng Brydeinig Frenhinol, mudiadau'r Lluoedd Arfog¹, mudiadau'r trydydd sector², Ymddiriedolaeth y GIG, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Gwasanaeth Prawf Cymru, Coleg Cambria a'r Cyngor yn ymrwymo i gydweithio'n agos er mwyn sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu ar gyfer cymuned y lluoedd arfog.

¹ Llynges Frenhinol, Byddin Prydain, Llu Awyr Brenhinol (RAF), Cymdeithas Milwyr, Morwyr a'r Lluoedd Arfog (SSAFA), Cymdeithas Lluoedd wrth Gefn a Chadetiaid (RFCA),

² Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, Dreigiau Ifanc Gogledd Cymru, Cyngor ar Bopeth – Sir y Fflint, Cymdeithas Tai Pennaf, Cymdeithas Tai Wales and West.

GRŴP LLYWIO LLEOL – CYLCH GORCHWYL

NODAU

1. Annog cefnogaeth ar gyfer Cymuned y Lluoedd Arfog sy'n gweithio ac yn byw yn Sir y Fflint ac i gydnabod a chofio'r aberth a wnaed gan aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog hon, yn enwedig y rheini sydd wedi gwneud yr aberth fwyaf. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n aelodau o'r Lluoedd a chyn-aelodau, eu teuluoedd a'u gweddwon yn Sir y Fflint.
2. Meithrin cyfleoedd er mwyn i'r sector sifil roi cymorth, cyngor a chefnogaeth i aelodau'r Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu ac sydd wedi ymddeol a'u teuluoedd drwy gyd-drafod ac archwilio i'r holl bosibiliadau mewn ffordd ddychmygus.
3. Cynorthwyo â'r gwaith o ad-drefnu'r ddarpariaeth gwasanaeth er mwyn diwallu anghenion sy'n newid y gymuned filwrol, eu teuluoedd, a chyn-filwyr, gan gynnwys lluoedd wrth gefn ym mhob un o'r tri llu arfog.
4. Creu diwylliant lle gall sefydliadau y Lluoedd Arfog yn Sir y Fflint gynnig cymorth i'w cymunedau sifil lleol.
5. Cyfuno, lle bo hynny'n bosibl, gweithgareddau a digwyddiadau milwrol a sifil er budd y ddwy gymuned.
6. Ymchwilio i gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer y rheini sydd yn gadael neu sydd ar fin gadael y lluoedd arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd.
7. Datblygu, monitro ac adolygu ymhellach yr ymrwymadau a wnaed yng Nghynllun Gweithredu Cyfamod Cymunedol Sir y Fflint.

[Fel y nodwyd yn y Cyfamod presennol

Gwella'r dull o rannu a chofnodi gwybodaeth lle bo'n briodol er mwyn rhoi cymorth i aelodau presennol y Lluoedd Arfog a chyn-aelodau boed rhieni'n aelodau Rheolaidd neu'n aelodau Wrth Gefn a'u teuluoedd yn Sir y Fflint.

Darparu cyfeiriad strategol a chymeradwyo unrhyw fidiau a gyflwynir ar gyfer y Grant Cymunedol.

Holl gyfathrebu'r Cefnogwr i hyrwyddo'r gwaith a wneir yn enw Cyfamod Cymunedol Lluoedd Arfog Sir y Fflint ac i sicrhau bod gweithwyr y Lluoedd Arfog yn gwybod gyda phwy y dylid cysylltu i gael cymorth yn lleol.

Derbyn adroddiadau cynnydd chwarterol gan yr is-grwpiau (Addysg, Cyflogaeth a Throseddu; Iechyd, Lles a Hamdden a Thai a Chymuned)]

Aelodaeth

I'w hadolygu:

Llywodraethiant

Bydd y Grŵp Llywio yn adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) (trwy un o themâu blaenoriaeth y BGC) yn chwarterol. Darperir cymorth ysgrifenyddol Dîm Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu y Swyddfa Weithredol.

Gwneud Penderfyniadau

Byddir yn gwneud penderfyniadau drwy gonsensws a'u cofnodi yn nghofnodion y Grŵp Llywio.

Amllder y cyfarfodydd

Bydd y Grŵp Llywio yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, neu'n amlach os oes angen, a'r cadeirydd fydd Cefnogwr y Lluoedd Arfog, Sir y Fflint.

Atodiad 2 Cynllun Gweithredu Cyfamod y Lluoedd Arfog



Annog cefnogaeth ar gyfer Cymuned y Lluoedd Arfog sy'n gweithio ac yn byw yn Sir y Fflint ac i gydnabod a chofio'r aberth a wnaed gan aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog hon, yn enwedig y rheini sydd wedi gwneud yr aberth fwyaf. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n aelodau o'r Lluoedd a chyn-aelodau, eu teuluoedd a gweddwon yn Sir y Fflint.

	Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Amserlen	Canlyniad/Allbwn	Cynnydd
1.1	Nodi prif ddigwyddiadau/dyddiau coffáu y Lluoedd Arfog	FM	Mai 2017	Calendr digwyddiadau ar gael i'r Grŵp Llywio	Wedi ei gwblhau
1.2	Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer pob digwyddiad er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu nodi	FM	Hydref 2017	Mwy o ymwybyddiaeth o'r LIA a'r cymorth sydd ar gael i gymuned y LIA	Gwaith yn mynd rhagddo

1.3	Datblygu ymhellach tudalennau ar wefan y Cyngor i hyrwyddo Cyfamod y LIA ac annog cymorth ar gyfer cymuned y LLA	FM	Medi 2017	Cymuned y LIA yn gallu cael mynediad at wybodaeth yn hawdd.	Wedi ei gwblhau.
1.4	Annog defnydd o logo Cyfamod y LIA ar gyhoeddiadau a deunyddiau hyrwyddo'r Cyngor	KA/Dylunio Graffeg	Rhagfyr 2017	Caiff CSFf ei hyrwyddo fel sir sy'n gyfeillgar i'r LIA ac mae ei ymrwymiad i'r Cyfamod yn amlwg ar bob dogfen a deunydd hyrwyddo	Aros am adborth gan LIC ynglŷn â chyfieithu'r logo
1.5	Sicrhau bod modiwl e-ddysgu Cyfamod y LIA ar gael ar gyfer pob gweithiwr newydd fel rhan o'r broses sefydlu	Hyfforddiant Corfforaethol /Swyddog Cyswllt Rhanbarthol y Lluoedd Arfog (SCRhLIA)	Mawrth 2018	Mae gweithwyr yn deall ymrwymiad y Cyngor i gymuned y LIA ac maent yn ymwybodol o'u hanghenion	Gofynnwyd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddatblygu modiwl dwyieithog ar gyfer Cymru y gellir ei addasu yn lleol
1.6	Datblygu gweithdai penodol ar gyfer gweithwyr sy'n ymwneud â'r cyhoedd er mwyn eu helpu i ddeall anghenion cymuned y LIA	SCRhLIA	Mawrth 2018	Mae gwasanaethau'r Cyngor yn ymwybodol o'r gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y gymuned LIA leol ac yn eu darparu	I'w ddatblygu gan SCRhLIA pan fydd wedi ei benodi/phenodi

1.7	Digwyddiadau LIA Sir y Fflint yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi drwy'r Fforwm Sir	FM/KA	Hydref 2017	Cynghorau Tref a Chymuned yn gweithio gyda'r Cyngor i hyrwyddo digwyddiadau LLA	FM wedi mynychu cyfarfod gyda Fforwm y Sir. Fforwm y Sir i gytuno i anfon cynrychiolydd i fynychu cyfarfod nesaf Grŵp Llywio CSFf (Hydref 2017)
Meithrin cyfleoedd er mwyn i'r sector sifil roi cymorth, cyngor a chefnogaeth i aelodau'r Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu ac sydd wedi ymddeol a'u teuluoedd drwy gyd-drafod ac archwilio'r holl bosibiliadau mewn ffordd ddychmygus.					
	Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Amserlen	Canlyniad/Allbwn	Cynnydd
2.1	Archwilio rôl Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) a Chyfamod y Lluoedd Arfog	FM/KA	Medi 2017	Mudiadau'r trydydd sector yn rhoi cefnogaeth weithredol i Gyfamod y LIA	Wedi ei gwblhau
2.2	Cynnwys Cyfamod y LIA o fewn y meini prawf ar gyfer cael grantiau gan CSFf	FM/KA	Rhagfyr 2017	Grantiau a ddarparwyd gan y Cyngor yn cefnogi ymrwymiad y Cyngor i gyfamod y LIA lle bo hynny'n gymwys. Mae arian cyhoeddus yn cael ei wario i gynorthwyo cymuned y LIA	Gwaith yn mynd rhagddo

2.3	Ymrwymiad i Gyfamod y LIA i'w gynnwys fel rhan o gymalau budd cymunedol CSFf o fewn y broses gaffael	Arwel Staples/Tom Booty/KA	Medi 2017	Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gefnogi cymuned y LIA. Arian cyhoeddus sy'n cael ei wario ar nwyddau, gwaith a gwasanaethau o fudd i gymuned y LIA. Mwy o gyfleoedd i hyfforddi a chyflogi cyn-filwyr lleol.	Gwaith yn mynd rhagddo
2.4	Ymchwilio i gyfleoedd i gynnwys ymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog o fewn Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol a Modelau Cyflenwi Amgen	KA/FM	Mawrth 2018	Mwy o gefnogaeth i gymuned y LIA ar gael Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol a Modelau Cyflenwi Amgen yn diwallu anghenion cymuned y LIA	Gwaith yn mynd rhagddo
Cynorthwyo â'r gwaith o ad-drefnu'r ddarpariaeth gwasanaeth er mwyn diwallu anghenion sy'n newid y gymuned filwrol, eu teuluoedd, a chyn-filwyr, gan gynnwys lluoedd wrth gefn, ym mhob un o'r tri llu arfog.					
	Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Amserlen	Canlyniad/Allbwn	Cynnydd

3.1	Gwasanaethau yn enwebu cyswllt ar gyfer Cyfamod y LIA	KA/FM	Medi 2017	<p>Mae gan y Grŵp Llywio fecanweithiau yn eu lle i gyfathrebu'n effeithiol â phob gwasanaeth yn y Cyngor.</p> <p>Gweithredir mewn dull "cydgysylltiedig" wrth gefnogi cymuned y LIA ar draws y Cyngor</p>	<p>Cynrychiolydd y Gwasanaeth: Gwasanaethau Cymdeithasol Gwasanaethau Cwsmeriaid Budd-daliadau Hamdden Cymunedau yn Gyntaf Datblygu Busnes Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu Adnoddau Dynol Addysg</p>
3.2	Sicrhau bod yr holl wasanaethau sydd â chronfeydd data cwsmeriaid yn gofyn i gwsmeriaid pan fyddant yn cysylltu â'r Cyngor a oes ganddynt gysylltiad â'r LIA	Grŵp Llywio'r LIA / cynrychiolwyr y gwasanaethau	Mawrth 2018	Mae Gwasanaethau yn gofyn cwestiynau yn gyson am gysylltiadau â'r LIA ac yn cipio'r data ar gronfeydd data eu cwsmeriaid	Addysg – gwaith yn mynd rhagddo
3.3	Pob gwasanaeth i newid eu holiaduron monitro cyfartaledd i gynnwys y LIA	Grŵp Llywio /cynrychiolwyr y gwasanaethau	Ionawr 2018	Mae gwell dealltwriaeth o broffil cymuned y LIA yn Sir y Fflint, y ffordd mae aelodau'r gymuned yn cael mynediad at wasanaethau a'u	Gwaith i'w ddechrau

				defnydd o wasanaethau	
3.4	Newid a monitro sylwadau a chwynion cwsmeriaid i gipio cymuned y LIA	Ian McLaren (IMc) / RJ	Rhagfyr 2017	Mae gwell dealltwriaeth o lefel bodlonrwydd cymuned y LIA o fewn Gwasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion.	Gwaith i'w ddechrau
3.5	Monitro, dadansoddi ac adolygu cwynion /sylwadau i nodi unrhyw dueddiadau er mwyn gwella gwasanaethau	IMc/RJ	Mawrth 2018	Mae gwell dealltwriaeth o lefel bodlonrwydd cymuned y LIA o fewn Gwasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion	Gwaith i'w ddechrau
3.6	Adolygu data er mwyn nodi'r gwasanaethau a ddefnyddir gan gymuned y LIA	Grŵp Llywio /cynrychiolwyr y gwasanaethau	Mawrth 2018	Deall proffil cymuned y LIA yn Sir y Fflint, eu hanghenion a'r gwasanaethau maent yn eu defnyddio.	Gwaith i'w ddechrau
3.7	Archwilio ac awgrymu newidiadau i bolisiâu'r portffolios Corfforaethol a	SCRhLIA	Rhagfyr 2018	Mae'r gwasanaethau yn gallu diwallu anghenion cymuned y LIA	Gwaith i'w ddechrau ar ôl penodi SCRhLIA

	gwasanaeth i adlewyrchu Cyfamod y LIA				
3.8	Sefydlu gwaelodlin ar gyfer gwasanaethau sy'n gyfeillgar i gymuned y LIA	SCRhLIA /cynrychiolwyr y gwasanaethau	Rhagfyr 2018	Mae rhestr o wasanaethau sy'n gyfeillgar i gymuned y LIA ar gael. Cynllun gweithredu yn ei le i sicrhau bod pob gwasanaeth yn gyfeillgar i gymuned y LIA	Gwaith yn mynd rhagddo
3.9	Cymorth Tai i wreiddio'r llwybr Tai ar gyfer Cyfamod y LIA	SCRhLIA	Medi 2018	Swyddogion Tai yn deall anghenion CLIA Gwybodaeth tai ar gael i aelodau CLIA Anghenion llety cyn- filwyr yn cael eu diwallu	Gwaith yn mynd rhagddo

Creu diwylliant lle gall sefydliadau'r Lluoedd Arfog yn Sir y Fflint gynnig cymorth i'w cymunedau sifil lleol.

	Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Amserlen	Canlyniad / Allbwn	Cynnydd
4.1	Llunio fframwaith i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor ac a noddir ganddo yn defnyddio gwirfoddolwyr o'r LIA	Capten NT/GM/PK/FM/KA/Gwenno Jones (GJ)	Hydref 2018	Gwirfoddolwyr o'r LIA i gymryd rhan yn nigwyddiadau'r Cyngor. Gwirfoddolwyr o'r LIA i gefnogi cymunedau lleol.	Mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) bellach yn aelod o'r grŵp a bydd yn rhoi cymorth i fwrw ymlaen â hyn ochr yn ochr â SCRhLIA
4.2	Hyrwyddo FLVC ar dudalennau'r Lluoedd Arfog ar y wefan	FM	Mai 2017	Mae mwy o aelodau o gymuned y LIA yn gwirfoddoli	Wedi ei gwblhau
4.3	Cymuned y LIA i ddarparu Cyngor Sir y Fflint (CSFf) â gwybodaeth y gellir ei rhoi ar y wefan	Capten NT/GM/PK	Rhagfyr 2017	Mae mwy o wybodaeth amrywiol ar gyfer cymuned y LIA ar gael ar y wefan	Heb ddechrau eto
4.4	Datblygu rhwydwaith gwirfoddoli ymhlith cymuned y LIA	SCRhLIA	Mawrth 2019	Mae rhwydwaith cynaliadwy o wirfoddolwyr o gymuned y LIA ar gael ac yn cymryd rhan weithgar i gefnogi cyn-filwyr	I ddechrau ar ôl penodi'r SCRhLIA

Cyfuno, lle bo hynny'n bosibl, gweithgareddau a digwyddiadau milwrol a sifil er budd y ddwy gymuned.

	Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Amserlen	Canlyniad/Allbwn	Cynnydd
5.1	Datblygu cynllun cyfathrebu blynyddol	FM/KA	Rhagfyr 2017	Cydlynu negeseuon a raeadrwyd o fewn y sir a'r Cyngor Gweithio ar y cyd er mwyn osgoi dyblygu gwaith a gwneud y defnydd gorau o adnoddau	Wedi ei gwblhau
5.2	Rhoi rhaglen hyfforddiant ar waith ar gyfer gweithwyr sy'n ymwneud â'r cyhoedd	SCRhLIA	Mawrth 2018	Mae gweithwyr yn deall anghenion cymuned y LIA	Gwaith yn mynd rhagddo
5.3	Hyrwyddo Cerdyn Disgownt Cyn-filwyr	Capten NT/PK/GM/MD	Rhagfyr 2017	Cynnydd yn nifer y cyn-filwyr sy'n gwneud cais am y cerdyn disgownt Mwy o fusnesau yn gwneud cais i gofrestru.	Gwaith yn mynd rhagddo – yn cael ei hyrwyddo ar wefan y Cyngor

5.4	Adolygu'r potensial i wasanaethau disgresiwn y Cyngor wneud cais i gael eu cofrestru	Cynrychiolwyr y gwasanaethau	Rhagfyr 2017	Rhai o wasanaethau'r Cyngor yn gwneud cais i gael eu cofrestru i dderbyn y cerdyn disgownt	Gwaith i'w ddechrau
Ymchwilio i gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer y rheini sydd yn gadael neu sydd ar fin gadael y lluoedd arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd.					
	Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Amserlen	Canlyniad/Allbwn	Cynnydd
6.1	Adolygu sefydliadau sy'n cynnig cyfleoedd i gymuned y LIA, cyn-filwyr a'u teuluoedd	SCRhLIA	Rhagfyr 2017	Mae rhestr o'r sefydliadau a'r gwasanaethau gallant eu cynnig ar gael	Rhestr eisoes wedi dechrau cael ei llunio
6.2	Hyrwyddo'r sefydliadau hyn ar y wefan	FM	Ionawr 2018	Gwybodaeth ar gael yn hwylus. Mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaethau hyn.	Gwybodaeth hysbys ar gael ar y wefan ar hyn o bryd
6.3	Creu cyfleoedd ar gyfer canolfannau galw heibio ar gyfer cymuned y LIA a chyn-filwyr	SCRhLIA/Cheryl Marland (CM)/PF/MD/FM	Ebrill 2018	Gall cymuned y LIA gael gwybodaeth a chymorth mewn amgylchedd sy'n gyfeillgar i'r LIA	Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol gyda Jason Palmer, CBS Conwy

				<p>Canolfannau i'r LIA ar gael yng nghanol pob tref</p> <p>Mae'r canolfannau yn gynaliadwy ac yn derbyn cefnogaeth pob asiantaeth</p>	
6.4	Llunio adroddiadau monitro achlysurol ar gyfer Tîm Prif Swyddog CSFf yn nodi meysydd ar gyfer gwella a gweithredu pellach	FM/KA	Adroddiad cyntaf i'w lunio erbyn Medi 2017	<p>Tîm y Prif Swyddogion yn derbyn y gwybodaeth ddiweddaraf am gynnydd.</p> <p>Unrhyw rwystrau sy'n atal cynnydd wedi eu dileu</p>	Gwaith wedi ei gwblhau
6.5	Llunio adroddiad blynyddol ar gyfer y Cabinet a Phwyllgor Adnoddau Corfforaethol a Throsolwg i rhoi trosolwg o'r cynnydd	FM/KA	Adroddiad cyntaf, Ebrill 2018	<p>Aelodau etholedig wedi cael sicrwydd bod y Cyngor yn ymroddedig i Gyfamod y LIA.</p> <p>Aelodau etholedig yn cefnogi ymrwymiad y Cyngor i Gyfamod y LIA.</p>	Gwaith wedi ei gwblhau

Archwilio'r Cyfleoedd Ariannu a Phrosiectau Cymunedol					
	Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Amserlen	Canlyniad/Allbwn	Cynnydd
7.1	Nodi'r grantiau sydd ar gael i gefnogi gwaith Cyfamod y LIA	FM/KA/ SCRhLIA	Medi 2017	Rhestr o'r grantiau sydd ar gael	Wedi ei gwblhau
7.2	Sgopio prosiectau er mwyn cefnogi ceisiadau a chyflwyno ceisiadau am grantiau perthnasol	FM/KA/ SCRhLIA	Mawrth 2018	Cyflwyno ceisiadau am grantiau Ceisiadau am grantiau yn llwyddiannus Nifer o fentrau yn y sir yn cael eu cefnogi gan grantiau	Gwaith yn mynd rhagddo